CYHOEDDIAD

# Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: adroddiad cynnydd – Gorffennaf 2022

Adroddiad Cynnydd a gyflwynwyd i'r Prif Weinidog, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, ac Arweinydd Plaid Cymru.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 15 Gorffennaf 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 15 Gorffennaf 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cefndir**

**Cynnydd**

**Ymgysylltu**

**Adrodd**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cefndir

Sefydlwyd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru gan Lywodraeth Cymru gyda dau amcan eang:

1. Ystyried a datblygu opsiynau i ddiwygio'n sylfaenol strwythurau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig, y mae Cymru yn parhau'n rhan annatod ohoni.
2. Ystyried a datblygu'r holl brif opsiynau blaengar i gryfhau democratiaeth Cymru a sicrhau gwelliannau i bobl Cymru.

Mae aelodaeth y Comisiwn yn cynnwys:

- Cyd-gadeirydd: Laura McAllister
- Cyd-gadeirydd: Rowan Williams
- Anwen Elias
- Miguela Gonzalez
- Michael Marmot
- Lauren McEvatt
- Albert Owen
- Philip Rycroft
- Shavanah Taj
- Kirsty Williams
- Leanne Wood

Ers yr adroddiad cynnydd blaenorol, penodwyd Panel Arbenigol i roi cymorth i'r Comisiwn ar amrywiaeth o arbenigeddau, megis llywodraethu, y gyfraith, cyfansoddiad, economeg a chyllid, i'w helpu i wneud argymhellion gwybodus. Dyma aelodau'r panel:

- Jess Blair - Cyfarwyddwr Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru
- Yr Athro Emyr Lewis – Pennaeth Adran y Gyfraith a Throseddeg, Prifysgol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Aberystwyth
- Auriol Miller – Cyfarwyddwr y Sefydliad Materion Cymreig
- Akash Paun – Pennaeth rhaglen ddatganoli'r Institute for Government
- Dr Hugh Rawlings – Cyn-Gyfarwyddwr Materion Cyfansoddiadol yn Llywodraeth Cymru
- Yr Athro Mairi Spowage – Athro Ymarfer a Chyfarwyddwr y Fraser of Allander Institute
- Yr Athro Diana Stirbu – Athro Polisi a Llywodraethiant ym Mhrifysgol Fetropolitan Llundain
- Gareth Williams (Cadeirydd) – Cyn-Gynghorydd Arbennig i Lywodraeth Cymru ar Bontio Ewropeaidd

# Cynnydd

Mae'r Comisiwn wedi cyfarfod i glywed tystiolaeth ar saith achlysur.

Ers yr adroddiad cynnydd blaenorol, mae'r Comisiwn wedi clywed tystiolaeth yn ei gyfarfodydd gan y bobl a'r sefydliadau canlynol:

- Yr Arglwydd Peter Hain, aelod o'r Grŵp Diwygio Cyfansoddiad, a chyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru
- Yr Athro Mererid Hopwood, Cadeirydd y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, Prifysgol Aberystwyth
- Dafydd Iwan, ymgyrchydd iaith Gymraeg, cerddor, a chyn-Lywydd Plaid Cymru
- Elin Jones AS, Llywydd, Senedd Cymru
- Mabli Siriol Jones, Cadeirydd, Cymdeithas yr Iaith
- Syr Paul Silk, aelod o'r Grŵp Diwygio Cyfansoddiad, a chyn Gadeirydd Comisiwn Llywodraeth y DU ar Ddatganoli yng Nghymru
- Huw Thomas, Arweinydd, Cyngor Caerdydd
- Mae Bywydau Du o Bwys Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Democracy Box
- Tîm Lleiafrifoedd Ethnig a Chymorth Ieuenctid Cymru
- Urdd Gobaith Cymru
- Voices From Care Cymru
- Clwb Ffermwyr Ifanc Cymru
- Academi Gofalwyr Ifanc

Mae gweithdy technegol diweddaraf y Comisiwn wedi ystyried sefyllfa ariannol Cymru.

## Ymgysylltu

Ar 11 Gorffennaf, roedd y Comisiwn wedi derbyn bron i 1,600 o ymatebion wedi'u cwblhau i'w alwad am dystiolaeth, a lansiwyd ar 31 Mawrth: **Dweud eich dweud: dyfodol cyfansoddiadol Cymru.** Bydd y cyfraniadau hyn yn llywio cynnwys adroddiad interim y Comisiwn.

Ar 11 Gorffennaf lansiodd y Comisiwn Gronfa Ymgysylltu â'r Gymuned. Crëwyd y gronfa i sicrhau bod barn y cymunedau amrywiol yng Nghymru yn cael ei chydnabod, fel y gellir eu hadlewyrchu yn adroddiad interim y Comisiwn. Bydd y Comisiwn yn darparu grantiau i sefydliadau cymwys o hyd at uchafswm o £5,000 fesul sefydliad trydydd sector neu grŵp cymunedol, a disgwylir i'r gweithgarwch ddigwydd ym mis Awst - Tachwedd 2022.

## Adrodd

Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi adroddiad interim erbyn diwedd 2022, a'i adroddiad llawn, gan gynnwys argymhellion, erbyn diwedd 2023.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-gorffennaf-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.